**GRŴP FFRAMWAITH CYMRU AR IECHYD A LLES ANIFEILIAID**

**Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ym Mharc Cathays, Caerdydd ar 11 Mehefin 2014**

**Yn bresennol:**

| | |
|---|---|
| Peredur Hughes | Cadeirydd |
| Joanna Price | |
| Huw Davies | |
| Ifan Lloyd | |
| David Davies | |
| Moss Jones | |

**Llywodraeth Cymru**

| | |
|---|---|
| Christianne Glossop | Y Prif Swyddog Milfeddygol |
| Chris Hale | Swyddfa’r Prif Swyddog Milfeddygol (OCVO) |
| Carol Harris | Swyddfa’r Prif Swyddog Milfeddygol (OCVO) |
| Janet Perry | Swyddfa’r Prif Swyddog Milfeddygol (OCVO) |

**<u>Eitem 1 – Croeso, ymddiheuriadau a chyflwyniad</u>**

Croesawodd y Cadeirydd bawb i gyfarfod cyntaf y Grŵp. Rhoddodd y Cadeirydd y wybodaeth ddiweddaraf am ei gyfarfod â’r Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd y bore hwnnw. Yn ystod y cyfarfod hwnnw, trafodwyd nifer o feysydd testun gan gynnwys datblygiad y Fframwaith Iechyd a Lles Anifeiliaid, agweddau ar y polisi TB, y gwaith sy’n cael ei gyflawni gan yr Is-grŵp ar Ddolur Rhydd Feirysol y Gwartheg (BVD), a chyfarfod y Cadeirydd a’i gymheiriaid yn Lloegr, yr Alban ac Iwerddon. Eglurodd ei fod yn gyfarfod defnyddiol iawn a bod gan y Gweinidog ddiddordeb arbennig yn y datblygiadau o ran BVD. Dywedodd y Gweinidog fod penodiad y Grŵp Fframwaith newydd a’r gwaith y bydd yn ei gyflawni dros y misoedd nesaf yn ei galonogi.

**<u>Eitem 2 – Neges gan y Prif Swyddog Milfeddygol</u>**

Dywedodd Christianne ei bod yn edrych ymlaen at gydweithio â’r Grŵp newydd. Eglurodd y bydd Fframwaith newydd Cymru ar Iechyd a Lles Anifeiliaid yn disodli Strategaeth Ddeng Mlynedd Prydain Fawr ar Iechyd a Lles Anifeiliaid a lansiwyd yn 2004. Bydd y Strategaeth honno’n dod i ben eleni. Eglurodd fod y gwaith o ddatblygu’r Fframwaith yn gyfle i fynd ati ar y cyd i helpu Cymru i ganolbwyntio ar flaenoriaethau Llywodraeth Cymru a’r diwydiant ac i feithrin cysylltiadau lle y bo’n briodol â gweinyddiaethau eraill yn y DU.

Eglurodd fod Llywodraeth Cymru wedi ymlynu at y pum prif egwyddor a nodir yn Strategaeth Prydain Fawr ar Iechyd a Lles Anifeiliaid dros y deng mlynedd diwethaf. Eglurodd mai’r egwyddorion hyn yw craidd y Fframwaith newydd. Yn ogystal, bu iddi bwysleisio mor bwysig yw dysgu o’r 10 mlynedd diwethaf ac

mor hanfodol yw parhau â gwaith Grŵp Llywio'r Strategaeth Iechyd a Lles Anifeiliaid, yn enwedig gwaith yr is-grŵp BVD ac is-grŵp y clafr. Disgrifiodd Christianne rai o'r prif faterion sy'n gysylltiedig â'r polisi TB presennol. Dywedodd Christianne fod y ffocws bellach ar ddatblygu'r cysylltiadau presennol ond hefyd ar fynd ati'n strategol i bennu blaenoriaethau, gan ddefnyddio arbenigedd y Grŵp a rhanddeiliaid eraill ac ystyried y nodau y dylai'r Grŵp ganolbwyntio arnynt yn y tymor byr a'r tymor hwy.

Eglurodd Christianne fod Llywodraeth Cymru'n defnyddio dull gwahanol i roi Fframwaith Cymru ar Iechyd a Lles Anifeiliaid ar waith. Caiff ei roi ar waith gan ddefnyddio dull sy'n seiliedig ar ganlyniadau. Bydd cydweithio mwy â'r diwydiant yn hollbwysig i lwyddiant y dull hwn. Dywedodd fod hwn yn gyfle i newid ffyrdd o weithio i ganolbwyntio ar roi'r fframwaith hwn ar waith mewn modd y gellir ei fesur. I gynorthwyo'r Grŵp i gyflawni'r gwaith hwn, eglurodd Christianne fod y swyddogion yn llunio cronfa ddata o randdeiliaid. Bydd yn helpu i dargedu unrhyw gyfathrebu a negeseuon allweddol, ond bydd hefyd yn helpu i ddod â phobl briodol sy'n meddu ar arbenigedd priodol ynghyd i drafod y ffordd ymlaen o ran defnyddio'r dull sy'n seiliedig ar ganlyniadau, a chytuno arni.

I sicrhau bod cysylltiadau'n cael eu cynnal ar draws Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon, eglurodd ei bod yn cwrdd bob mis â'r Prif Swyddogion Milfeddygol eraill.

**<u>Eitem 3 – Cylch gorchwyl a chloriannu sgiliau</u>**

Dywedodd y Cadeirydd fod Cylch Gorchwyl y Grŵp eisoes wedi'i ddosbarthu a gofynnodd a oedd unrhyw un am wneud sylwadau. Cytunodd y Grŵp ar y Cylch Gorchwyl gyda'r mân newidiadau a drafodwyd (fel y'u nodir yn y camau gweithredu).

Cytunwyd y bydd y Grŵp yn llunio cynllun cyflawni strategol sy'n nodi amcanion y Grŵp yn y tymor byr a'r tymor hir. Cytunwyd i drafod materion sy'n ymwneud â chyllidebau a chyllid yn y cyfarfod nesaf.

Trafodwyd pwysigrwydd ymgysylltu â rhanddeiliaid a'r angen i ehangu arno wrth i'r gwaith fynd rhagddo er mwyn cynnwys sefydliadau/unigolion sy'n ymwneud ag anifeiliaid anwes, ceffylau, pysgod, gwenyn mêl, ffermwyr hamdden. Awgrymwyd hefyd y byddai'n ddefnyddiol ystyried gwahanol ddigwyddiadau y gallai'r Grŵp Fframwaith fynd iddynt, fel Gŵyl Wanwyn y flwyddyn nesaf. Mae digwyddiadau o'r fath yn gyfle i'r Grŵp feithrin cysylltiadau â rhanddeiliaid eraill.

***Cam gweithredu 1 – Yr Ysgrifenyddiaeth i ddiwygio'r Cylch Gorchwyl i gynnwys: cyfeiriad at y canllawiau ailbenodi a chyfeiriad at baratoi a chyhoeddi Cynllun Cyflawni***

***Cam gweithredu 2 – Yr Ysgrifenyddiaeth i drefnu cyflwyniad am gyllidebau yn y cyfarfod nesaf ym mis Medi***

***Cam gweithredu 3 – Aelodau'r Grŵp i ystyried rhanddeiliaid, gan gynnwys sefydliadau a grwpiau. Yr aelodau i anfon awgrymiadau at yr Ysgrifenyddiaeth.***

***Cam gweithredu 4 – Yr Ysgrifenyddiaeth i gysylltu â Steve Hughson, Cymdeithas Amaethyddol Frenhinol Cymru, i ofyn a all Llywodraeth Cymru/y Grŵp Fframwaith fod yn bresennol yn yr Ŵyl Wanwyn.***

## Eitem 4 – Y sefyllfa bresennol

Cyfeiriodd y Cadeirydd at y 'Briff Materion Llosg' a ddosbarthwyd i'r Grŵp cyn y cyfarfod. Cytunodd y Grŵp y bydd y 'Briff Materion Llosg' yn cael ei ddiweddaru a'i ddosbarthu er gwybodaeth bob mis.

Bu'r Grŵp yn trafod blaenoriaethau hen Grŵp Llywio'r Strategaeth Iechyd a Lles Anifeiliaid. Cytunodd y Grŵp y gallai gwahanol sefydliadau fod yn casglu llawer o ddata am glefydau sy'n flaenoriaeth, ond bod angen ei choladu a'i dadansoddi i helpu i lywio'i drafodaethau ynghylch y ffordd ymlaen. Cytunodd y Grŵp hefyd fod angen adolygu ac ehangu'r blaenoriaethau i adlewyrchu cwmpas y Fframwaith Iechyd a Lles Anifeiliaid.

Rhoddodd y Cadeirydd y wybodaeth ddiweddaraf am yr is-grŵp BVD. Eglurodd fod yr is-grŵp yn bwriadu cyflwyno'i adroddiad i'r Gweinidog ei ystyried yn ystod yr haf. Cytunwyd i ddosbarthu'r adroddiad i'r Grŵp ei drafod yn ei gyfarfod ym mis Medi.

Trafodwyd yr adroddiad a gyflwynwyd i'r Gweinidog gan is-grŵp y clafr. Cytunwyd i rannu ymateb drafft Llywodraeth Cymru i'r adroddiad â'r Grŵp er mwyn iddo roi sylwadau arno, ond gofynnwyd i'r Grŵp nodi y bydd angen i'r Gweinidog ystyried yr ymateb terfynol a chytuno arno yn ffurfiol.

Trafodwyd i ba raddau yr oedd angen i'r Grŵp Fframwaith newydd gael ei gynnwys yn y gwaith o ran y polisi TB a chytunodd y Grŵp fod angen iddo gael gwybod am yr hyn sy'n digwydd ac am unrhyw gynigion newydd. Gan fod y Cadeirydd hefyd yn Gadeirydd Bwrdd Dileu TB Rhanbarth y Gogledd, cytunwyd y bydd yn ddolen gyswllt rhyngddynt ac y bydd yn rhoi gwybod i'r Grŵp am unrhyw ddatblygiadau.

Rhoddodd Christianne'r wybodaeth ddiweddaraf am Fasnachu ar Sail Risg ac eglurodd fod llawer o waith i'w wneud o hyd.

***Cam gweithredu 5 – Yr Ysgrifenyddiaeth i ddosbarthu Briff Materion Llosg bob mis.***

***Cam gweithredu 6 – Yr Ysgrifenyddiaeth i gomisiynu gwaith i ystyried tystiolaeth sylfaenol am y clefydau sy'n flaenoriaeth sy'n cael eu dwyn ymlaen o waith Grŵp Llywio'r Strategaeth Iechyd a Lles Anifeiliaid. Caiff y blaenoriaethau'u hadolygu yn y cyfarfod nesaf.***

***Cam gweithredu 7 – Yr Ysgrifenyddiaeth i ychwanegu BVD at agenda'r cyfarfod nesaf.***

***Cam gweithredu 8 – Yr Ysgrifenyddiaeth i ychwanegu cyflwyniad am y rhaglen Dileu TB at agenda'r cyfarfod nesaf.***

***Cam gweithredu 9 – Yr Ysgrifenyddiaeth i ddosbarthu'r adroddiad am Epidemioleg TB cyn y cyfarfod nesaf.***

**<u>Eitem 5 – Rhagolwg</u>**

Gan fod yr ymgynghoriad ar y Fframwaith Iechyd a Lles Anifeiliaid wedi dod i ben, eglurodd y Cadeirydd fod yr Ysgrifenyddiaeth wedi bod yn gweithio i lunio dogfen y Fframwaith. Byddant hefyd yn llunio fersiwn i blant.

Bwriedir i'r Gweinidog lansio'r Fframwaith yn y Sioe Frenhinol ddydd Mawrth 22 Gorffennaf. Eglurodd y bydd seminar am y Fframwaith Iechyd a Lles Anifeiliaid hefyd yn cael ei chynnal ar y prynhawn dydd Mawrth. Bydd yr Ysgrifenyddiaeth yn dosbarthu'r manylion pan fyddant wedi'u cadarnhau.

Yna, gofynnodd y Cadeirydd i'r aelodau ystyried ffocws y gwaith dros y misoedd nesaf, gan gynnwys nodau ar gyfer y tymor byr a'r tymor hwy. Bu'r Grŵp yn ystyried y blaenoriaethau a gynigiwyd gan randdeiliaid yn ystod yr ymgynghoriad cyhoeddus am Fframwaith Cymru ar Iechyd a Lles Anifeiliaid.

Pwysleisiodd Moss fod angen cysylltu gwaith y Grŵp â'r gwaith o lunio Cynllun Datblygu Gwledig newydd Cymru, gan roi pwyslais ar godi safonau bioddiogelwch ar ffermydd a chynllunio iechyd.

Tynnodd Huw sylw at yr angen i feithrin cysylltiadau â'r Strategaeth Fwyd newydd. Eglurodd Carol y bydd yr Ysgrifenyddiaeth yn mynd ati yn gyntaf i gysylltu â'r timau perthnasol yn Llywodraeth Cymru i bennu sut y gall y Grŵp gymryd rhan yn y gwaith.

Dywedodd Jo y byddai ganddi ddiddordeb mewn creu cysylltiadau â rhanddeiliaid ym maes ceffylau. Eglurodd hefyd y byddai'n ddefnyddiol pe bai modd i aelodau'r Grŵp ystyried unrhyw fentrau y maent yn gwybod amdanynt a ddefnyddiwyd i fynd i'r afael â chlefydau endemig (e.e. y prosiect SWAHILI), a hynny er mwyn rhoi'r arferion gorau a bennwyd neu'r gwersi a ddysgwyd ar waith yng Nghymru.

Cytunodd y Grŵp hefyd y bydd yn ystyried sut y gall helpu i roi ar waith y rheoliadau sydd ar y gorwel o ran bridio cŵn a gosod microsglodion ar gŵn.

I sicrhau bod modd cyfathrebu'n effeithiol rhwng cyfarfodydd, cytunodd y Grŵp i bwyso a mesur yr opsiwn o greu fforwm trafod ar-lein.

***Cam gweithredu 10 – Y Grŵp Fframwaith ar Iechyd a Lles Anifeiliaid i fynd i'r Sioe Frenhinol a'r Fframwaith ar Iechyd a Lles Anifeiliaid i gael ei lansio ar 22 Gorffennaf. Yr Ysgrifenyddiaeth i gadarnhau'r manylion cyn gynted ag y byddant ar gael.***

***Cam gweithredu 11 – Yr Ysgrifenyddiaeth i gwrdd ag arweinwyr polisi Llywodraeth Cymru yn y meysydd a ganlyn: Cynllun Datblygu Gwledig Cymru, y Cynllun Gweithredu Bwyd, Anifeiliaid Anwes a Cheffylau, a rhoi adroddiad i'r Grŵp am y canfyddiadau.***

***Cam gweithredu 12 – Y Grŵp Fframwaith ar Iechyd a Lles Anifeiliaid i anfon e-bost at yr Ysgrifenyddiaeth am unrhyw fentrau a roddwyd ar waith o ran clefydau endemig y gallai'r Grŵp eu hystyried.***

***Cam gweithredu 13 – Yr Ysgrifenyddiaeth i ymchwilio i weld a oes modd i'r Grŵp Fframwaith gael fforwm trafod electronig.***

## <u>Eitem 6 – Unrhyw fater arall</u>

Rhoddodd y Cadeirydd ddyddiadau'r cyfarfodydd a gynhelir dros y flwyddyn nesaf, sef:

Dydd Mercher 17 Medi

Dydd Mercher 3 Rhagfyr

Dydd Mawrth 3 Mawrth

Dydd Mercher 3 Mehefin

Nid oedd unrhyw fater arall i'w drafod.

**DIWEDD**